# Cofnodion Cyfarfod 11/12/2025

**Presennol:** Cyng Moira Mai, Jacqueline Allen, Eifion Roberts, Rhys Evans, Eluned Jones, Ken Edwards, Sion McGuiness, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dilys Evans, Fiona Hopkins a Huw Symonds.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Yn absenoldeb y maer fe estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng Moira Mai, ac fe gyfeiriodd at lwyddiant diweddar Gwion Ellis wrth ddod yn bencampwr byd Deka Mile yn Florida yn ddiweddar. Cyfeiriodd hefyd at ymddangosiad y Cyng Rhys Evans ar raglen Cefn Gwlad, ac at brysurdeb y Noson Siopa Hwyr yn y dref ddechrau'r mis.

2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 6/11/25.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Ymddiswyddiad y Cyng Clare Mackintosh: Derbyniwyd llythyr gan y Cyng Clare Mackintosh yn nodi ei bod yn ymddiswyddo o'i rôl fel aelod o'r Cyngor Tref. Cytunwyd i ysgrifennu at Clare i ddiolch iddi am ei holl waith, yn arbennig yn ystod dathliadau Y Bala – Yma o Hyd. Cytunwyd hefyd i hysbysebu'r cyfle i alw etholiad i lenwi'r sedd wag.

   ii. Sedd Wag Flaenorol y Cyngor: Adroddwyd na dderbyniwyd enwebiad ar gyfer cyfethol aelod i'r cyngor erbyn y dyddiad cau. Gofynnwyd i'r aelodau ddod ag enwau ymlaen erbyn cyfarfod mis Ionawr o'r cyngor.

   iii. Parc Cenedlaethol Eryri – Trefniadau Parcio ger Llyn Tegid: Derbyniwyd ymateb gan Brif Weithredwr y Parc Cenedlaethol yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol. Cytunwyd i wneud cais i'r Parc glustnodi cyfran o arian Cronfa Gymunedol y Parc i Benllyn oherwydd y pwysau gan ymwelwyr yn ystod y prif dymor ymwelwyr. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Parc gyhoeddi canlyniadau eu rhaglenni grant yn y wasg leol er mwyn codi ymwybyddiaeth.

   iv. Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd: Cytunwyd i ofyn i'r Gwasanaeth am eu anghenion offer fel y gallent gynnal a chadw'r tir o amgylch Ffynnon Beuno.

v. Grant Gwynedd Ni: Rhoddwyd adroddiad ar y gwaith o osod raciau beics a bocsys blodau ychwanegol i'r dref, a pholyn fflag i faes parcio'r Grin. Nodwyd fod yr offer wedi ei archebu, ac fe gytunwyd i dalu'r anfonebau, gan hawlio'r arian yn ôl gan Gronfa Gwynedd Ni pan yn briodol.

vi. Gwaith Celf y Bala: Rhoddwyd adroddiad ar y trafodaethau i adleoli gwaith celf Canolfan Cywain i safle gyhoeddus yn ardal y Bala. Cytunwyd fod Cyngor Llandderfel yn gefnogol i'r gwaith, a bod angen symud ymlaen i gael costau ar gyfer y datblygiad.

5. **Cyngor Gwynedd:** Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi prynu a gwneud llawer o waith ar dŷ yn Bro Eryl. Adroddwyd nad oes gwybodaeth bellach ar ddatblygiad Neuadd Buddug.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is bwyllgor Asedau:** Cytunwyd i gysylltu gyda NMWTRA i wneud cais am gynllun cynnal a chadw ac uwchraddio tymor hir i balmentydd y dref. Cytunwyd i symud dwy fainc yn ôl i Blaenddol, ac i wneud hynny yn y flwyddyn newydd fel rhan o welliannau pellach yn y dref.

**Is bwyllgor Tref Gyfeillgar, Adnoddau a'r Nadolig:** Adroddwyd fod y Goleuadau Nadolig wedi eu goleuo ers Rhagfyr 4ydd, a diolchwyd i bawb fuodd ynghlwm â'r trefniadau. Adroddwyd fod enillydd y gystadleuaeth Ffenestr Siop Nadolig, sef Petalau Eleri wedi dewis rhoi'r wobr o £50 i Ganolfan Deulu'r Bala, ac fe gytunwyd i wneud y taliad yma.

**Is bwyllgor Cyllid:** Gwnaed trefniadau i'r grŵp gyfarfod ar 7fed Ionawr 2026.

**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Cytunodd y Cyng Jacqueline Allen i baratoi Adroddiad Adran 6 erbyn diwedd Rhagfyr, a diolchwyd iddi am ei gwaith.

**Is Bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Eifion Roberts ar gyfarfod wedi ei drefnu gan Barc Cenedlaethol Eryri ar Dachwedd 20fed i drafod prosiect twristiaeth cynaliadwy, pryd y cafwyd cyflwyniad ar Gynllun Twristiaeth Cynaliadwy, ac fe anogwyd y cynghorwyr i fynychu'r cyfarfodydd yma i'r dyfodol.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn:** Ni chafwyd adroddiad o gyfarfodydd diweddar.

**Grŵp Busnesau'r Bala:** Adroddwyd fod Noson Siopa Hwyr y Bala wedi bod yn llwyddiant eto eleni, gyda'r dref wedi elwa yn gymdeithasol ac yn economaidd.

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y gwaith o adnewyddu Canolfan Bro Tegid yn parhau, a bod car wedi ei brynu ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol.

7. **Materion Cynllunio**:

a) NP5/53/545A: Adnewyddu 1-6 Rhandai Tegid, Heol Berwyn: Cytunwyd i gefnogi'r cais gan ei fod yn welliant sylweddol i'r dref.

b) NP5/53/580J: Diwygio Amod 2 ynghlwm wrth ganiatad cynllunio datblygiadau ger Llyn Tegid: Nid oedd sylwadau pellach ar y cais.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)

c) NP5/53/114D: Adeiladu estyniad cefn a newidiadau i'r fynedfa bresennol, Pen y Dalar, Craig y Fron: Cytunwyd i gefnogi'r cais.

*8.* **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £1,880 yn y cyfri cyfredol, £37,254 yn y cyfri cadw a £513 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Tachwedd.
- **ii.** Cytunwyd i drosglwyddo £7,000 o'r cyfrif cadw i'r cyfrif cyfredol.
- **iii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfoneb cynnal gwefan y cyngor am flwyddyn, lwfans swyddfa'r clerc am 2025 ac anfonebau prosiect Gwynedd Ni (prynu a gosod raciau beics, bocsys blodau a pholyn fflag).
- **iv.** Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn gofyn am fanylion praesept y Cyngor Tre am 2026/2027 a gofynnwyd i'r Is Bwyllgor Cyllid roi sylw iddo.

**9. Gohebiaeth:**

- i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd manylion am Strategaeth Arwyddo'r Bala, a gwahoddiad i ychwanegu safleoedd y gellid eu cynnwys ar yr arwyddion. Cytunwyd i ofyn a ellid cynnwys y toiledau cyhoeddus, llyfrgell y dref, caeau bowlio, criced a hoci, Eglwys y Bala, Canolfan Bro Tegid a Chanolfan Mary Jones, Canolfan Iechyd y Bala, y banc a phwyntiau gwefru ceir trydan.
- ii) Cyngor Gwynedd: Costau Cynnal Toiledau Cyhoeddus. Derbyniwyd llythyr yn amlinellu cynnydd sylweddol yn y gost o gynnal toiledau cyhoeddus y dref. Cytunwyd fod y cynnydd yn afresymol, ac fe gytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd ail ystyried y gost, ac hefyd i edrych ar gyfleon i leihau costau neu i godi tâl am ddefnydd ohonynt.
- iii) Cyngor Gwynedd: Amser cau toiledau: Derbyniwyd llythyr yn nodi y bydd y toiledau cyhoeddus yn cau yn gynnar am gyfnod dros dro.
- iv) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am gyrsiau hyfforddiant di gost, ac am raglen hyfforddiant arferol Un Llais Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd am Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar Ionawr 21ain.
- v) WIFI Cymunedol: Derbyniwyd gwybodaeth gan Menter Môn fod y gwasanaeth hwn yn ail gychwyn.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Cafwyd trafodaeth gyda'r Cyng Dilwyn Morgan ar waith Cyngor Gwynedd ar dŷ yn Bro Eryl, ac ar sefyllfa bresennol Neuadd Buddug.

Dymunwyd Nadolig Llawen i bawb, a daeth y cyfarfod i ben am 9pm.
Bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 8 Ionawr 2026.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)